# Gweithredu

*CYNLLUN RHEOLI CARBON*

## *SUT I WEITHREDU I ARBED YNNI?*

Unwaith yr ydych wedi monitro, a chynnal archwiliad ynni, gallwch gynllunio i weithredu i arbed ynni.

Yn gyntaf, bydd angen i chi ystyried, os oes angen i rywbeth gael ei ddefnyddio o gwbl. Er enghraifft, a yw'n bosib lleihau y nifer o lungopiwyr yn yr ysgol.

Yn ail, a oes modd defnyddio rhywbeth am gyfnodau byrrach. Er enghraifft, ydi'r popty yn cael ei droi ymlaen cyn fod angen? Ydi'n bosib troi y popty ymlaen awr yn hwyrach yn y bore?

Yn drydedd, oes offer yn cael eu gadael ymlaen yn ddiangen? E.e. bwrdd gwyn ymlaen yn ystod amser cinio.

Rhaid hefyd ystyried os oes rhywbeth wedi torri neu ddim yn gweithio yn iawn, gan fod hyn hefyd yn gallu effeithio ar ddefnydd ynni adeilad.

Dyma syniadau o'r math o bethau y gallwch ei wneud:

- Posteri / sticeri i atgoffa pobl i ddiffodd
- Disgyblion i gyflwyno gwasanaeth ysgol yn atgoffa pawb i arbed ynni
- Penodi 'swyddog ynni' ym mhob dosbarth i fod yn gyfrifol am ddiffodd offer a goleuadau ar ddiwedd y Dydd
- Sicrhau fod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i beidio gwastraffu ynni
- Penodi disgyblion fel 'ditectifs ynni' i archwilio dosbarthiadau yn ystod amser cinio i weld pa offer sydd yn cael ei adael ymlaen.
- Rhoi gwybodaeth ar arbed ynni, ac efallai 'tips' arbed ynni, ar wefan yr ysgol
- Annog disgyblion a staff i rannu syniadau ar sut allwch arbed ynni yn yr ysgol
- Gofyn i Swyddog Cadwraeth Ynni Cyngor Gwynedd i ymweld a'r Ysgol er mwyn rhoi cyflwyniad ar arbed ynni a newid hinsawdd.